Novello

Ef a ysbrydolodd theatr gerddorol fodern ac roedd yn gyfansoddwr, awdur ac actor arbennig o ddawnus.

Cronfa Cerflun Ivor Novello

Enillodd Ivor Novello ganmoliaeth i Gymru ar draws y byd, ond yr unig gofeb iddo yn ei famwlad yw plac lliw glas ar wal y tŷ yng Nghaerdydd lle cafodd ei eni. Bydd Apêl Cymru'n cofio Ivor Novello, yr actor byd enwog, cyfansoddwr ac awdur, drwy godi cerflun yn Mae Caerdydd y tu i Ganolfan Mileniwm Cymru.

Ivor Novello model o'r cerflun gan Peter Nicholas

Roedd Ivor Novello yn enwog fel seren ffilmiau yn America ac ym Mhrydain, gan ymddangos mewn mwy nac ugain o ffilmiau ac yr un mor llwyddiannus fel actor theatr mewn dramâu, comedïau ac, ym 1938, fel Henry V yn nrama Shakespeare.

Roedd e hefyd yn ysgrifennu adolygiadau, dramâu a sgriptiau ffilm, ond roedd ei dalent yn fwyaf amlwg yn ei ganeuon, ei ddramâu cerdd a'i gomedïau. Mae ei gynyrchiadau mwyaf llwyddiannus yn cynnwys *Glamorous Night* (1935), *Careless Rapture* (1936), *The Dancing Years* (1939), ac wedi'r rhyfel ysgogodd *Perchance to Dream* a *King's Rhapsody* i Brydain, a'r byd i gyd, ganu. Bu farw ym 1951 yn ei fflat uwchben Theatr y Strand yn Llundain, ychydig oriau wedi iddo berfformio'r brif ran yn *King's Rhapsody*.

Peilot adeg y rhyfel: Yn y rhyfel byd cyntaf, wedi iddo gyfansoddi un o'r caneuon rhyfel mwyaf teimladwy erioed, *Keep The Home Fires Burning*, perfformiodd Ivor Novello o flaen y lluoedd ar Ffrynt y Gorllewin cyn gwasanaethu fel peilot yng Ngwasanaeth Awyr y Llynges Frenhinol, gan oroesi dwy ddamwain.

Astudiodd y cerflunydd Peter Nicholas yn Ysgol Gelf Caerdydd a Choleg Celf Brenhinol, Llundain. Mae e'n gymrawd o Gymdeithas Frenhinol Cerflunwyr Prydain ac yn aelod o Gymdeithas Dyfrlliw Cymru. Mae nifer o sefydliadau trwy gydol Cymru wedi comisiynu lluniau, cerfwaith a chelfi efydd ganddo. Mae ei gerfluniau a'i luniau yn rhan o gasgliadau preifat a chyhoeddus yn y DU, Ewrop ac America.

Dyluniwyd gan Peter Gill & Associates

Y cerflun gan Peter Nicholas

Bydd y cerflun efydd ysblennydd deuddeg troedfedd o uchder yn cael ei leoli yn y plaza, y tu allan i Ganolfan Mileniwm Cymru, Bae Caerdydd.

"Rydym bron hanner y ffordd at gyrraedd ein targed o £85,000 i gwblhau'r cerflun," meddai'r dyn a ddechreuodd Apêl Novello, Hilary David. Ef a gomisiynodd y cerflun ac a ddechreuodd yr ymdrech godi arian. Gallwch ein helpu ni i wireddu'r freuddwyd hon drwy wneud cyfraniad hael at gronfa'r cerflun a fyddwch chi'n ymuno â ni i ddathlu un o'r serennu mwyaf enwog Cymru ar y llwyfan, y sgrin ac yn y theatr gerddorol.
Os hoffech chi gyfrannu at y Gronfa, defnyddiwch y Datganiad Rhodd Cymorth isod ac anfonwch eich cyfraniad at:
John Steward, Trysorydd Anrhydeddus, Cronfa Cerflun Novello, 23 Heol St. Denys, Llysfaen, Caerdydd CF14 0RU Cymru, y D.U.

Cronfa Cerflun Ivor Novello Elusen rhif.1118697

Os hoffech i'ch cyfraniad fod yn rhodd Cymorth Rhoddion gwnewch hynny'n glir isod.

☐ Dymunaf/Dymunwn i'm/i'n rhodd fod yn gyfraniad Cymorth Rhoddion.

Nodiadau:
1. Gallwch ganslo'r Datganiad hwn unrhyw dro drwy roi gwybod i'r elusen.
2. Os byddwch chi'n talu treth ar gyfradd uwch, fe allwch chi hawlio cymorth treth pellach yn eich ffurflen dreth hunanasesu.
3. Os ydych chi'n ansicr a yw eich cyfraniadau yn gymwys ar gyfer cymorth treth Rhodd Cymorth, holwch yr Elusen neu cyfeiriwch at ffurflen helpu IR65 ar wefan CaThEM (HMRC). (www.hmrc.gov.uk).
4. Rhowch wybod i'r elusen os byddwch chi'n newid eich enw a'ch cyfeiriad.

Datganiad Rhodd Cymorth

Yr wyf i _____ (enw llawn)

o _____ (cyfeiriad llawn, yn cynnwys cod post)

_____

e-bost _____

yn datgan y dylai'r cyfraniad amgaeedig o £ _____ gael ei drin fel cyfraniad i Gronfa Cerflun Ivor Novello, ac rwy'n dymuno i hwn a phob cyfraniad yn y dyfodol fod yn gyfraniadau Rhodd Cymorth. Rwy'n cadarnhau fy mod i'n talu Treth Incwm yn y D.U. a/neu Dreth Enillion Cyfalaf sy'n gyfartal â'r swm o dreth y gellir ei hawlio ar fy nghyfraniadau.

Arwyddwyd _____ Dyddiad _____

Noddwr: Andrew Lloyd Webber, Dennis O'Neill CBE, OStJ, Hon RAM, D.Mus
Arlywydd: Captain Norman Lloyd-Edwards **Is-lywydd**: Hilary Charles David
Cadeirydd: Derek Grattidge **Trysorydd**: John Steward **Pwyllgor**: Teleri Bevan, Wyn Calvin, John Cosslett, Margaret Harries, Eddie Rabaiotti, Gareth Rhys-Davies, Bob Skinner, Bettie Williams. **Ysgrifennydd**: Peter Gill, Radnor Court, 256 Cowbridge Road East, Cardiff CF51GZ Wales, UK. Tel: 029 2037 7312 email: secretary@novellowales.com

Mae Cronfa Cerflun Ivor Novello yn elusen gofrestredig, rhif.1118697.